


## ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llawn i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*, ac yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*. Mae sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu hefyd wedi'i nodi fel un o 7 nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn ogystal, mae rhwymedigaeth statudol arnom i ystyried yn llawn effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu ystyried sut mae unrhyw un o bolisiau Llywodraeth Cymru yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema i strategaeth Cymraeg 2050



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gweithgareddau sy'n gallu effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os oes potensial i'ch polisi effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr Cymraeg, ac felly ar y Gymraeg ei hun.

1. Rhif cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg **02/01/2020**

**Rhif Clirio:**

2. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?

Nac ydi, nid oes cysylltiad arwyddocaol rhwng y rheoliadau arfaethedig a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

3. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac esboniwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r sefyllfa o ran y Gymraeg:

Nid oes effeithiau cadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig hwn. Mae'r cynnig yn ymwneud yn bennaf ag awdurdodau lleol yn sefydlu ac yn cynnal cronfa ddata o blant oedran ysgol gorfodol drwy gymharu data iechyd a data addysg. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod lleol i nodi plant sy'n hysbys i wasanaethau iechyd neu sydd mewn ysgol annibynnol ond nad ydynt ar unrhyw gofnod awdurdod lleol.

Rydym yn cydnabod y gallai'r plant hynny sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref nad ydynt yn derbyn unrhyw addysg drwy'r Gymraeg gael eu dal yn ôl rhag bod yn rhan o'r gymuned leol, a bywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymuned Gymraeg ehangach.

Wrth ddatblygu'r polisi, bydd angen cydgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol, a hynny yn Gymraeg. Gallai terminoleg yn y maes hwn fod yn gymhleth, felly fe drafodwn y derminoleg Gymraeg gyda'r rhanddeiliaid i sicrhau ei bod yn ddealladwy ac yn ystyried amrywiaethau rhanbarthol.

Bydd yr ymgynghoriad ffurfiol yn dechrau ar 30 Ionawr 2020 ac yn para 12 wythnos. Bydd dogfennau'r ymgynghoriad, gan gynnwys fersiynau hawdd i'w darllen a fersiynau i bobl ifanc, ar gael yn ddwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chopïau caled dwyieithog. Caiff digwyddiadau cyhoeddus a digwyddiadau i rhanddeiliaid, oll yn ddwyieithog, eu cynnal ledled Cymru yn 2019 hefyd.

Yn ogystal â chwestiynau manwl am y cynnig, bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys y cwestiwn gorfodol am sut gallai'r cynnig effeithio ar y Gymraeg. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi hyd yma.

Nid oes unrhyw effeithiau penodol ar ddarpariaeth Gymraeg wedi'u nodi, ond caiff hyn ei ystyried ymhellach fel rhan o'r broses ymgynghori.

♦ *Sut byddwch yn gwybod os yw eich polisi yn llwyddiant?*

**Mae deddfwriaeth y DU ynghylch addysg yn y cartref yn un o'r systemau sy'n cael eu rheoleiddio leiaf yn Ewrop. Bydd cryfhau'r fframwaith deddfwriaethol o ran addysg yn y cartref yn helpu awdurdodau lleol i fynd ati mewn ffordd fwy strategol i gynllunio a darparu cymorth i gymunedau sy'n addysgu yn y cartref. Bydd yn darparu data mwy cywir i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar nifer y plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref a bydd yn ffordd o weld y patrymau sy'n datblygu. Diben hyn yw cefnogi hawl plant i gael addysg, cael rhoi eu barn a chael eu diogelu – a pharchu hawliau plant sydd, am mai plant ydynt, yn llai abl i amddiffyn yr hawliau hynny.**